Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar gyfer

# MLA Nursery LTD yn masnachu fel Meithrinfa Ddydd Brookfield
**Meithrinfa Ddydd Brookfield**
**Garthmyl**
**Trefaldwyn**
**Powys**
**SY15 6RS**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â MLA Nursery LTD yn masnachu fel Meithrinfa Ddydd Brookfield

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | MLA Nursery LTD yn masnachu fel Meithrinfa Ddydd Brookfield |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Ddim yn berthnasol |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Mary Langford Archer |
| Person â chyfrifoldeb | Honi Trow |
| Nifer y lleoedd | 82 |
| Ystod oedran y plant | 0 – 8 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 52 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 7:30am-6:15pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Ddim yn berthnasol |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/10/2011 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/11/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a rheoli** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ffiniau realistig yn cael eu gosod ym mhob rhan o'r lleoliad a bod y staff yn eu rhoi ar waith yn effeithiol

A2 Sicrhau bod pob plentyn yn derbyn darpariaeth o'r un lefel ym mhob rhan o'r lleoliad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant:  Da**

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu llesiant o lefel uchel yn y lleoliad. Maent yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol, ac yn dangos eu bod yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu ar y cyfan.

Mae bron bob un o'r plant yn hapus i wahanu oddi wrth eu rhieni. Maent yn hyderus yn dewis o'r amrywiaeth o weithgareddau cyfarwydd sydd ar gael ar ddechrau'r sesiwn ac yn setlo i ganolbwyntio arnynt yn gyflym ac yn hawdd. Maent yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymlacio yn yr amgylchedd ac yn gwahodd eraill i gymryd rhan yn eu profiadau chwarae yn siriol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn symud o amgylch y lleoliad yn rhydd ac yn dewis o'r amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau sydd ar gael dan do ac yn yr awyr agored, yn annibynnol ac yn fedrus.   Maent yn mynegi eu hunain yn hyderus gan ddefnyddio geiriau ac ystumiau. Maent yn gwybod bod ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r rhyngweithio â nhw a byddant yn ymateb yn briodol. Maent yn rhannu eu diddordebau'n effeithiol ac yn eu cynnwys yn themâu a phynciau'r lleoliad yn briodol.

Mae bron bob un o'r plant yn archwilio'r amgylchedd yn llawn brwdfrydedd. Maent yn cymryd risgiau priodol ac ystyrlon yn hyderus ac yn datblygu eu gwydnwch yn dda iawn, megis drwy ddringo teiars, adeiladu pontydd rhwng y ddau ac archwilio'r ddarpariaeth helaeth yn yr awyr agored.  Dyma nodwedd arbennig o gref o ddarpariaeth y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau'n dda. Er enghraifft, roeddent wrth eu bodd yn chwarae gyda dŵr yn yr awyr agored a gwnaeth grŵp o blant dreulio cyfnod sylweddol o amser yn paratoi bwyd i'w cyfoedion tra bod un plentyn wedi ymgolli'n llwyr mewn chwarae gyda'r gwelltyn.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn datblygu cyfeillgarwch.  Er enghraifft, gwnaeth grŵp o blant fwynhau paratoi bwyd i'w gilydd a chymryd eu tro i ychwanegu a chymysgu'r cynhwysion. Maent yn ymateb pan ofynnir iddynt ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' yn ystod amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn parchu adnoddau'r lleoliad ac yn eu defnyddio'n briodol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn hollol glir ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae bron bob un o'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth a'u sgiliau personol yn dda.  Er enghraifft, maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo heb gymorth ac mae llawer ohonynt yn gwisgo eu cotiau yn hyderus. Ar y cyfan, mae'r plant yn datblygu sgiliau annibynnol yn dda yn ystod amser byrbryd.

**Dysgu (mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, yn arbennig wrth ddatblygu eu sgiliau darllen a'u sgiliau corfforol cynnar. Maent yn dangos lefelau uchel o ymgysylltu a hyder ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau cyfathrebu a sgiliau llythrennedd cadarn. Maent yn gwrando'n astud ac mae llawer ohonynt yn siarad yn glir ac yn hyderus. Er enghraifft, maent yn sgwrsio'n hapus am ddraenogod yn mynd i gysgu neu'r tŷ y maent wedi'i adeiladu i'r tyranosor rex. Mae llawer o'r plant yn ymuno mewn caneuon a rhigymau ac mae nifer bach ohonynt yn mwynhau perfformio ar lwyfan fach i'w ffrindiau. Mae llawer ohonynt yn dewis edrych ar lyfrau'n annibynnol. Maent yn rhannu straeon ag ymarferwyr neu ffrindiau'n llawn brwdfrydedd. Mae'r mwyafrif o'r plant yn gwybod bod y clawr yn egluro cynnwys y llyfr ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn trin llyfrau fel darllenwyr, megis pan fyddant yn dal y llyfr i wynebu'r ffordd gywir ac yn troi'r tudalennau'n ofalus. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau gwneud marciau gydag amrywiaeth o gyfarpar ac mae llawer ohonynt yn dechrau datblygu dealltwriaeth o ysgrifennu at ddiben. Er enghraifft, maent yn ceisio llofnodi eu henw ar gofrestr ar ôl cyrraedd bob dydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau rhifedd yn dda. Maent yn adrodd y rhifau mewn trefn hyd at ddeg o leiaf a gall nifer bach o'r plant adrodd y rhifau ar ôl 12. Gall llawer ohonynt gyfrif gwrthrychau i ddeg yn gywir ac maent yn dechrau adnabod rhai digidau rhif i bump. Er enghraifft, maent yn enwi'r rhifau wrth drefnu'r concyrs ar linell rhifau. Mae nifer bach o'r plant yn gwneud defnydd da o eirfa fathemategol. Maent yn cyfrif ac yn cymharu nifer y teganau anifeiliaid mewn blychau ac yn nodi pa un sydd â'r mwyaf.

Mae sgiliau corfforol bron bob un o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn llwyddo i roi ystyriaeth i le wrth reidio beiciau cydbwyso ac yn neidio'n hyderus i mewn i byllau mawr. Mae rhai o'r plant yn gosod tasgau heriol iawn i'w hunain wrth iddynt geisio neidio o un boncyff i'r llall neu redeg i fyny llethr laswelltog wlyb. Maent yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau i ddatblygu eu sgiliau echddygol manwl, megis llwyau, gefail a brwshys yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu dychymyg a'u sgiliau creadigol drwy weithgareddau megis paentio, dawnsio a chwarae offerynnau syml yn llwyddiannus. Mae llawer o'r plant yn dangos chwilfrydedd ac yn archwilio'n hyderus. Er enghraifft, maent yn arbrofi wrth gymysgu powdr paent â dŵr i greu amrywiaeth o liwiau ac yn mynd ati i brofi eu paent ar gynfasau cotwm mawr sy'n hongian yn yr ardal awyr agored. Mae llawer o'r plant yn dechrau datblygu eu sgiliau meddwl yn effeithiol. Maent yn dyfalbarhau ac yn rhoi cynnig ar wahanol ddulliau, megis wrth geisio cael teganau ceir allan o gôn mawr neu dorri moron â chyllell fwrdd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol yn ystod gweithgareddau chwarae rhydd. Maent yn defnyddio switshys a botymau yn bwrpasol, megis wrth wrando ar negeseuon a recordiwyd, yn Gymraeg ac yn Saesneg, sy'n gofyn iddynt sut maent yn teimlo heddiw. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn tynnu lluniau o'u hunain a'u ffrindiau gan ddefnyddio camera digidol heb lawer o gymorth.

Yn ystod eu hamser yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau Cymraeg yn effeithiol mewn perthynas â'u mannau cychwyn. Maent yn ymateb i amrywiaeth o eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn gadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymuno mewn caneuon Cymraeg syml ac yn defnyddio rhywfaint o eiriau Cymraeg gydag anogaeth gan yr ymarferwyr.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o bolisi diogelu'r lleoliad ac maent yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt bryderon. Maent yn defnyddio amrywiaeth bwrpasol o bolisïau a gweithdrefnau i greu a chefnogi amgylchedd diogel i'r plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder.

Mae pob ymarferydd yn annog ffordd o fyw iach. Maent yn darparu byrbrydau a diodydd sy'n gytbwys o ran maeth i'r plant ac yn hybu iechyd y geg yn dda. Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i ddarparu cyfleoedd rheolaidd i'r plant wneud ymarfer corff yn yr ardal awyr agored.

Mae pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ac yn gwybod sut i ddelio â damweiniau yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn gyson ac yn cwblhau cofnodion yn effeithiol. Maent yn arfer gweithdrefnau hylendid da, fel gwisgo dillad gwarchod wrth newid cewynnau ac yn ystod amser byrbryd, golchi dwylo, glanhau'r byrddau a glanhau'n barhaus yn ystod y dydd.

Mae bron bob un o'r ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio â'r plant yn dda. Maent yn hybu ymddygiad cadarnhaol yn dda drwy ddefnyddio dull cyson a charedig ac yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol, gan drin pob plentyn â pharch. Er eu bod yn dilyn y polisi rheoli ymddygiad, nid ydynt bob amser yn gosod ffiniau realistig a chlir i'r plant. Er enghraifft, nid ydynt yn ymyrryd pan fo lleiafrif o'r plant yn rhedeg o gwmpas ac yn gweiddi'n uchel wrth chwarae dan do. O ganlyniad, mae ymddygiad y plant yn aflonyddol ar adegau ac yn amharu ar chwarae a dysgu plant eraill. Mae bron bob un o'r ymarferwyr yn cydnabod ymdrechion a chyflawniadau'r plant ac yn eu canmol yn effeithiol i hybu hunan-barch a hyder y plant. Er enghraifft, wrth ganmol y plant am dacluso cyn amser grŵp, ymatebodd y plant yn dda i bawen lawen gan yr ymarferwyr.

Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol ac yn parchu dewisiadau unigol y plant yn dda. Maent yn ymateb i syniadau a diddordebau'r plant mewn ffordd ofalgar ac yn cymryd rhan yn chwarae a dysgu'r plant yn llawn brwdfrydedd. Mae bron bob un o'r ymarferwyr yn hawdd mynd atynt ac yn dangos sensitifrwydd tuag at anghenion unigolion. Maent yn darparu gofal mewn modd magwrus ac yn rhoi maldod a sicrwydd pan fo angen.

Mae bron bob un o'r ymarferwyr yn ymdrechu i ddeall trefn ddyddiol a dewisiadau unigol pob plentyn. Mae gan y lleoliad systemau gwerth chweil i roi cymorth i blant ag anghenion ychwanegol, ac mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allweddol a rhieni er budd y plentyn.

**Addysgu ac asesu (mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth lwyddiannus o brofiadau dysgu dan do ac yn yr awyr agored sy'n ymgysylltu â bron bob plentyn ac sy'n diwallu eu hanghenion yn effeithiol. Maent yn defnyddio adnoddau penagored, naturiol ac sydd wedi'u

hailgylchu yn dda i ddatblygu sgiliau'r plant ym mhob maes dysgu, gan gynnwys sgiliau meddwl a sgiliau creadigol y plant.

Mae'r ymarferwyr yn hybu datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol y plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn meithrin ymdeimlad o ryfeddod a chwilfrydedd yn effeithiol wrth annog y plant i arsylwi ar y malwod a'r mwydod y maent yn dod o hyd iddynt yn yr ardd ac i ofalu amdanynt. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant gael profiad o gerddoriaeth a chelf o bob cwr o'r byd, megis wrth wrando ar opera ac edrych ar baentiadau Leonardo da Vinci.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau rhifedd, TGCh, cyfathrebu a llythrennedd yn effeithiol. Maent yn defnyddio adnoddau yn ddychmygus, megis wrth ddefnyddio pibell ddŵr i weld pwy sy'n gallu gwneud y pwll 'mwyaf' neu ddarparu casgliad o goncyrs i'w trefnu a'u cyfrif. Maent yn datblygu diddordeb brwd mewn llyfrau ac yn hybu sgiliau darllen cynnar y plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddarllen drwy gydol y sesiwn ac yn darparu ardal ddarllen groesawgar â dewis buddiol o lyfrau, cadair freichiau gyfforddus, clustogau a blancedi.

Mae cyfleoedd defnyddiol ym mhob rhan o'r amgylchedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol gan gynnwys defnyddio gefeiliau, llwyau a chloeon clap. Mae'r ardal awyr agored yn darparu cyfleoedd arbennig o effeithiol i ddatblygu sgiliau cydsymud a hyder y plant, megis siglo o ganghennau coed, cropian drwy dwneli neu neidio i mewn i'r afon fwd.

Mae llawer o'r ymarferwyr yn gweithredu fel modelau rôl effeithiol ar gyfer y Gymraeg drwy ganu caneuon a defnyddio geiriau ac ymadroddion syml wrth gofrestru a thrwy gydol y sesiwn.  Mae'r plant yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am eu treftadaeth Gymreig. Er enghraifft, maent yn gwisgo gwisg draddodiadol ac yn coginio cawl cennin a thatws fel rhan o'u dathliadau Dydd Gŵyl Dewi.

Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol yn llwyddiannus.  Er enghraifft, maent yn annog y plant i gydweithio a chymryd eu tro wrth iddynt chwarae ar gyfrifiadur neu rannu clustog â ffrind. Mae'r ymarferwyr yn helpu'r plant i wneud dewisiadau, archwilio a datblygu eu hyder yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn gosod ffiniau priodol i'r plant yn gyson.

Mae bron bob un o'r ymarferwyr yn deall arfer y cyfnod sylfaen yn dda.  Maent yn egluro pethau'n glir, yn modelu gweithgareddau ac yn cwestiynu'r plant yn effeithiol. Maent yn cyfuno tasgau â phwyslais penodol â chwarae rhydd y plant yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r plant yn cynnal diddordeb mewn tasgau ar y cyfan ac yn mwynhau cyfnodau o ddysgu di-dor.

Mae trefniadau effeithiol ar waith i olrhain cynnydd y plant a chynllunio eu camau dysgu nesaf.  Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar y plant yn ofalus i nodi eu cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi'r meysydd lle y gallai fod angen mwy o gymorth ar y plant ac i fynd i'r afael â nhw. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y rhieni a'r gofalwyr yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eu plant ym mhob un o feysydd dysgu'r cyfnod sylfaen, er enghraifft drwy e-byst, cyfarfodydd a thrafodaethau anffurfiol rheolaidd.

## Yr Amgylchedd: Da

Caiff y plant ofal da mewn safle sy'n cynnwys ardaloedd penodedig ar gyfer babanod, plant bach a phlant cyn-ysgol. Mae cynllun y safle yn hybu annibyniaeth y plant yn llwyddiannus ac yn eu hannog i ddysgu a datblygu. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y llety yn ddiogel iawn. Mae'r asesiadau risg yn drylwyr a chânt eu cwblhau ar gyfer yr amgylchedd dysgu dan do ac awyr agored. Cânt eu hadolygu a'u diweddaru yn rheolaidd. Caiff y cyfarpar tân ei brofi a chaiff y gweithdrefnau gwagio'r adeilad mewn argyfwng eu rhoi ar waith yn rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn rhoi rhagofalon diogelwch da ar waith, megis cloi drysau a darparu gorchuddion ar gyfer gwresogyddion. Caiff mesurau diogelwch eu hymgorffori yn yr arferion dyddiol ac maent yn sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn ddidrafferth.

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd croesawgar, cyfoethog, sy'n canolbwyntio ar y plant ac sy'n eu helpu i chwarae a dysgu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw ystafell y plant bach wedi'i chynllunio na'i chyfarparu i'r un graddau â'r ddarpariaeth yng ngweddill y lleoliad. Yn ogystal â hyn, roedd yn amlwg nad oedd cyfleoedd gwneud marciau na gweithgareddau crefft yn yr ystafell fabanod yn ogystal â'r ystafell i blant dros ddwy oed. Mae'r ardal awyr agored yn wych ac yn cynnig amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd chwarae a dysgu i'r plant i gyd. Mae'r plant wrth eu bodd yn chwarae yn yr awyr agored ar y sleidiau, yn y ceginau mwd, yn y tai chwarae, yn chwarae â dŵr, ac yn dringo ac yn cael llawer o fudd ohonynt.

Mae'r arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd chwarae a dysgu er mwyn cefnogi annibyniaeth y plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r holl ddodrefn o faint ac uchder priodol ac mae'r cyfleusterau storio ar lefel isel yn galluogi'r plant i nodi a dewis teganau ac adnoddau yn hawdd. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo yn briodol ar gyfer oedran y plant ac yn hawdd i'r plant eu defnyddio.

Mae amrywiaeth dda o deganau a chyfarpar i hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol, gan gynnwys llyfrau, doliau a dillad gwisgo i fyny. Mae'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored yn helaeth gan fod ardaloedd wedi'u gorchuddio ac adnoddau chwarae ar gyfer yr amrywiaeth o oedrannau gan gynnwys chwarae meddal ar gyfer y babanod. Mae deunyddiau wedi'u hailgylchu ac eitemau naturiol megis brigau a dail ar gael i'r plant fwynhau chwarae â nhw. Mae bron bob un o'r adnoddau dan do ac yn yr awyr agored yn lân, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn addas at y diben.

## Arwain a rheoli: Da

Mae gan yr arweinwyr bum gwerth a ystyriwyd yn ofalus fel gweledigaeth ar gyfer y lleoliad ac maent yn eu rhannu â'r plant yn llwyddiannus. Maent yn canolbwyntio ar ddarparu amgylchedd naturiol ac amlsynhwyraidd sy'n datblygu dychymyg y plant ac sy'n adeiladu ar eu hyder a'u sgiliau. Mae ymrwymiad cadarn i waith tîm ac mae'r holl ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r arweinwyr yn rhannu amrywiaeth o bolisïau priodol i drefnu'r lleoliad yn addas. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau bod pob un ohonynt yn cael eu rhoi ar waith yn gyson. O ganlyniad, nid yw'r ymarferwyr yn dilyn pob gweithdrefn yn effeithiol, megis y rheini sydd wedi'u nodi yn y polisi ymddygiad. Mae'r arweinwr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ar gyfer yr holl staff ac mae'r lleoliad yn defnyddio'r nifer gofynnol o ymarferwyr â chymwysterau addas yn gyson. Mae datganiad o ddiben cyfredol sy'n sicrhau bod y rhieni yn gallu gwneud dewis gwybodus ynghylch defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r trefniadau ar gyfer nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn llwyddiannus ac mae pob ymarferydd yn ymrwymedig i wella ansawdd. Mae'r lleoliad yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau mewn modd buddiol i lywio'r broses hunanwerthuso. Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella'n dda ac yn sicrhau bod targedau yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i'r plant. Mae arweinwyr ystafelloedd yn ymgynghori â'u timau yn effeithiol i adolygu ymarfer ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn nodi llwyddiannau'r lleoliad, meysydd sydd wedi gwella'n ddiweddar a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar y plant. Er enghraifft, mae newid diweddar yn y dull a ddefnyddir wedi arwain at ddatblygu chwilfrydedd, sgiliau archwilio a sgiliau meddwl y plant yn llwyddiannus.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio systemau arfarnu a goruchwylio'r lleoliad er mwyn adolygu perfformiad yr ymarferwyr yn effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd defnyddiol i'r ymarferwyr fyfyrio ar ansawdd eu gwaith ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniadau. Mae targedau pendant yn dangos meysydd clir i'w gwella i'r ymarferwyr. Mae'r arweinwyr yn cynnig sawl cyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac mae'r ymarferwyr yn manteisio ar y rhain ac yn ymdrechu i wella eu perfformiad. Caiff hyn effaith gadarnhaol, megis gwella gallu ymarferwyr i ddarparu cyfleoedd buddiol i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth a chanu.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau llwyddiannus â'r gymuned leol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm, megis dal y bws i ymweld â llyfrgell leol. Ar y cyfan, mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyngor a'r cymorth y mae'n eu cael gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau gwelliannau mewn meysydd a nodir, megis cynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau'r plant yn ystod amser cofrestru.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn hysbysu'r rhieni am ofal a datblygiad y plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn anfon e-byst manwl at y rhieni ac yn darparu adroddiadau cynnydd defnyddiol i rieni'r plant hŷn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg Cyf (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/01/2020